Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 7fed Ionawr 2025

Croeso a Gweddi.
Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol
Y Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r cynghorwyr Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Ellen George, Gareth W Griffiths, Idris Thomas ac Emma Chappell

Ymddiheuriadau.
Rhian Evans-Hill, Gareth Hughes, Ynyr Parri, Lowri James, Sasha Williams, Dawn Thomas a Berwyn Parry Jones.

Datgan Buddiant
Dim

Cofnodion Cyfarfod y 3ydd Rhagfyr 2024
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Phyllis Ellis (1) **Ellen George (2)**

Materion o'r Cofnodion.
Clybiau Ieuenctid
Derbyniwyd cadarnhad fod Clwb Bethel yn mynd yn llewyrchus iawn. Mae clwb ieuenctid Rhiwlas wedi agor ers mis Tachwedd, gyda nifer fechan yn mynychu yn rheolaidd bob wythnos. Bydd clwb yn agor unwaith eto yn Neiniolen ym mis Ionawr.

Gohebiaeth a Materion eraill.
Brynrefail
Gordyfiant o Iddew o amgylch y fainc ger y safle bws. Y clerc i drefnu i gael ei docio.
Llwybr 10 Bethel
Derbyniwyd e-bost yn nodi pryder am gyflwr a newidiadau i'r llwybr yn sgil y gwaith adeiladu cyfagos. Roedd pryder hefyd fod giât mochyn efo plât dur bwrw o gilfach ddu wedi ei dinistrio. Mae'r clerc wedi cysylltu yn syth gyda'r adeiladwyr ac adran llwybrau yng Nghyngor Gwynedd, ond eto i ddisgwyl ymateb. Serch hynny, mae'r Cyngor ar ddallt fod cyflwr y llwybr ei hun wedi gwella ers codi'r gŵyn wreiddiol.

Cynllunio.
Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C24/1105/18/LL - Caban Cyf, Brynrefail

Gosod pâr wedi'u rhaeadru o Bympiau Gwres Ffynhonnell Aer Viessmann Vitocal 16Kw 150A (ASHP) Dim Gwrthwynebiad

C24/0999/18/LL - Fferm y Ddôl, Bethel

Adeilad diwydiannol newydd at ddibenion storio. Dim Gwrthwynebiad.

C24/1040/18/DA - Bakhita, Bethel

Diwygiad ansylweddol i gais gynllunio C24/0467/18/AC drwy newid deunydd y to o lechi i ddur. Gwrthwynebu ar sail na fydd yn gweddu gyda gweddill y tai yn yr ardal, ac yn glynu wrth gais gwreiddiol cafodd ei ganiatáu a hynny o do llechi.

C24/1030/18/LL - Gwelfor, Carreg y Garth, Rhiwlas

Dymchwel modurdy presennol, codi modurdy newydd mewn man cyfagos i ymyl y ffordd, creu tri lle parcio newydd, codi estyniad un llawr i flaen yr eiddo a chodi porth blaen.

C24/1102/18/DT - 9 Tan y Foel, Gallt y Foel

Gosod pwmp Gwres Ffynhonnell Aer. Dim Gwrthwynebiad

Cyfrifon

Gosod Cyllideb a Praesept

Yn dilyn cyfarfodydd yr is bwyllgor cyllid, cyflwynwyd cyllideb ar gyfer 2025/2026 ynghyd a chynllun Busnes o 5 mlynedd. Nodwyd fod y gyllideb yn eithaf agos i'n sefyllfa bresennol, ac roedd pawb yn falch fod praesept a ddynodwyd ar y gyllideb yn gallu aros run fath eto eleni, sef 31,000. Cytunwyd yn unfrydol, ar dderbyn y gyllideb. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r adran gyllid yng Nghyngor Gwynedd ia roi cais am brasespt o 31,000 am y flwyddyn 2025/2026.

O Gwmpas y Bwrdd

Penisa'r-waun - Llifogydd eto yn Bron y Gaer. Mae gweithwyr wedi bod allan yn ymweld â'r safle, ond nid oes dim gwybodaeth ar be nodwyd yno, ac os oes unrhyw beth wedi ei wneud i atal y llifogydd bob tro mae glaw trwm. Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir i weld beth yw'r diweddaraf.

Lon Bethel i Lanrug - Mae yn a gordyfiant ar bileri concrete ar y troad yn dilyn Tyddyn Teg ar y ffordd tuag at Lanrug o Fethel. Mae yn amhosib gweld dim ac mae yna gyffordd yno, lle os na fydd y gordyfiant yn cael ei docio yn ôl, bydd peryg o ddamwain difrifol. Hefyd mae angen arwydd arafu ger Rhyd y Fuwch, gan fod goryrru yn yr ardal, ac eto ar gornel dywyll.

Cadarnhau Taliadau

Derbyniwyd y taliadau ar y rhestr ac arwyddwyd gan y Cadeirydd